



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL



Crynodeb o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd CBSMT

Rhagfyr 2015

www.merthyr.gov.uk

CRYNODEB O GYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Pwrpas Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd o ran Rheoli Perygl Llifogydd

Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI)

Mae llifogydd yn parhau'n fygythiad allweddol i gymunedau ledled Cymru ac mae rheoli'r perygl hwn trwy gynllunio'n ofalus yn bwysig i leihau'r perygl i gymunedau. Mae cynllunio rheoli perygl llifogydd yn galluogi Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) i ddatblygu gwell ddealltwriaeth o'r perygl o'r holl darddiadau llifogydd a chytuno ar flaenoriaethau i reoli'r perygl hwnnw.

Datblygwyd y CRhPLI hwn gyda hyn mewn golwg ac mae'n gosod sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) dros y 6 mlynedd nesaf yn rheoli Perygl Llifogydd yn y cymunedau mwyaf agored i berygl er budd mwyaf i'r amgylchedd. Wrth wneud hyn mae'r CRhPLI hwn yn gweithredu ar yr amcanion a'r camau a nodir yn ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLILI).

Nod y CRhPLI hwn hefyd yw cyflawni rhai o'r amcanion a nodir yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru trwy bedwar amcan cyffredinol:

- Lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
- Cynnwys pobl a chodi'u hymwybyddiaeth o'r ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Darparu ymateb effeithiol a chynhaliol i lifogydd ac erydu arfordirol.
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau lle mae'r perygl mwyaf.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y CRhPLI hwn?

Mae'r wybodaeth yn CRhPLI CBSMT yn cynnwys y cydrannau a nodir yn Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Casglwyd a diweddarwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon trwy'r cylch cyntaf hwn ac fe'i casglwyd o ganfyddiadau ein Hasesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (ARhBLI) a'r amcanion a'r mesurau a nodwyd yn ein SRhPLILI.

Mae'r CRhPLI hwn yn nodi amcanion priodol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd sy'n gynwysedig yn y cynllun. Mae'r amcanion yn canolbwyntio ar leihau effeithiau andwyol llifogydd ar iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgarwch economaidd.

I wneud hyn mae'r CRhPLI yn amlygu'r ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd yn sgil dŵr wyneb a dyfrffyrdd arferol yn CBSMT. Mae'n llunio casgliadau o'r

peryglon hyn ac yn nodi'r mesurau y byddwn yn eu cymryd dros y chwe blynedd nesaf i liniaru'r peryglon hyn a chryfhau ein cymunedau.

Yn sgil natur llifogydd a'r sefyllfa ariannol bresennol, rydym wedi edrych ar fesurau i leihau tebygolrwydd llifogydd heb ddefnyddio mesurau strwythurol a chan ymdrin â phob agwedd ar reoli perygl llifogydd gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o lifogydd a gwella dealltwriaeth o faterion llifogydd lleol. Mae'r holl fesurau yn y cynllun hwn wedi'u dosbarthu i bedwar categori:

- Atal
- Amddiffyn
- Parodrwydd
- Adfer ac Adolygu

Cyd-destun Deddfwriaethol

Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009

Yn ôl Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 (Y Rheoliadau), mae ALILIA yn gyfrifol am lunio CRhPLI ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd a nodwyd yn yr Aseidiadau Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am lunio CRhPLI ar lefel rhanbarthau basn afon i gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd o brif afonydd a'r môr. Mae angen i ALILIA lunio CRhPLI lleol i reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a dyfrffyrdd arferol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cylch chwe blynedd gyda therfynau amser i gyhoeddi 3 dogfen allweddol a restrir isod:

- Aseiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd – Rhagfyr 2011 – cwblhawyd
- Mapiau Peryglon – Rhagfyr 2012 – cwblhawyd
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd – Rhagfyr 2015

Yn dilyn cyhoeddiad y CRhPLI ym mis Rhagfyr 2015 bydd ail iteriad y cylch chwe blynedd yn dechrau yn 2016.

Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (ARhBLI)

Mae'r ARhBLI yn ymarfer sgrinio lefel uchel a gasglodd wybodaeth am berygl llifogydd lleol sylweddol o'r gorffennol ac a ragfynegodd llifogydd yn y dyfodol ar sail gwybodaeth oedd wrth law. Cwmpas yr ARhBLI oedd ystyried llifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a dyfrffyrdd arferol, ac unrhyw gysylltiad rhwng y ffynonellau hyn â phrif afonydd gyda'r nod o nodi ardaloedd perygl llifogydd yn ôl Cyfarwyddebau Llifogydd Ewrop.

Llunio mapiau perygl llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd

Yn 2013 lluniodd Asiantaeth yr Amgylchedd, mewn cydweithrediad â CNC ac ALILIA, ddiweddariad y Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb.

Mae'r map diwygiedig yn cynrychioli gwelliant sylweddol ar y mapiau llifogydd dŵr wyneb blaenorol, o ran y dull a chynrychiolaeth y perygl o lifogydd.

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ym mis Ebrill 2010 yng Nghymru a Lloegr. Ei bwriad oedd gweithredu ar argymhellion Syr Michael Pitt yn dilyn llifogydd helaeth 2007. Bwriad y ddeddf hefyd oedd egluro rolau a chyfrifoldebau rhwng Awdurdodau Rheoli Perygl (ARhP).

Yn ôl y Ddeddf, roedd galw ar Lywodraeth Cymru i lunio Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ac ar CBSMT i lunio Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLLI) a gwblhawyd ym mis Mehefin 2013.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000 yn gyfarwyddeb gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymrwymo aelod-wladwriaethau i gyflawni statws ansoddol a meintiol da o'i holl gyrff dŵr erbyn 2015.

Un o ofynion y CFfD yw bod rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd lunio a diweddarau Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer pob rhanbarth. Gorwedd CBSMT yn nalgylch Afon Hafren ac mae wedi'i gynnwys yn Nalgylch Rheoli Cymoedd y De-ddwyrain.

Mae galw hefyd am ymgynghori rhwng CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd a'r ALILIA wrth ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Ardal yr Astudiaeth

Ardal Weinyddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yn Awdurdod Unedol wedi'i leoli yng nghymoedd De-ddwyrain Cymru. Dangosodd cyfrifiad 2011 fod poblogaeth CBSMT yn 58,802 a bod 26,245 o eiddo preswyl. Fodd bynnag, at ddiben y CRhPLI hwn er mwyn cydymffurfio â gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC, rydym yn defnyddio'r Gronfa Ddata Derbynnnydd Genedlaethol (CDG) gyda meddiannaeth gyfartalog o 2.35 o bobl ymhob annedd. Mae'r CDG yn rhestru 26,185 o eiddo yn CBSMT a chan ddefnyddio'r lluosydd 2.35 mae hyn yn rhoi poblogaeth fras o 61,534.

Mae gan y Fwrdeistref ardal o 11,189 hectar sy'n gymysgedd o dir gwledig a threfol lle caiff cymunedau'u datblygu ar y cyfan ar lethrau serth neu mewn basnau cymoedd.

Rhestr o nodweddion a ddefnyddir mewn cyfrifiadau i asesu perygl llifogydd

Cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ddogfen "Mapiau Perygl Llifogydd – Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb – Rhanbarth Basn Afon Hafren" ac ynddi oedd manylion am y nodweddion i'w hystyried wrth astudio perygl llifogydd o ddŵr wyneb a dyfrffyrdd arferol.

Mae'r nodweddion wedi'u rhannu i dri chategori, sef Perygl i Bobl, Perygl i Weithgarwch Economaidd a Pherygl i'r Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol.

Dalgylchoedd Afon yn CBSMT

Mae dŵr wyneb o uchafoedd y dalgylch yn draenio i'r Taf Fawr tua'r gorllewin ac i'r Taf Fechan tua'r dwyrain. Mae cydlifiad y ddwy afon yn digwydd yng Nghefn Coed-y-cymmer ac islaw'r pwynt hwnnw cyfeirir at yr afon fel Afon Taf.

Mae sector de-ddwyrain y dalgylch yn draenio i Fargod Taf sy'n ymuno ag Afon Taf ger Mynwent y Crynwyr.

Mae dwy brif gronfa ddŵr wedi'u lleoli'n rhannol yn CBSMT. Gorwedd hanner dwyreiniol Cronfa Ddŵr Llwyn Onn ar y Taf Fawr tua gogledd-orllewin y dalgylch ac mae Taf Fechan yn llifo i Gronfa Ddŵr Pontsticill yn y gogledd-ddwyrain.

Perygl Llifogydd yn CBSMT

Crynodeb o'r mathau o beryglon llifogydd sydd i'w gweld yn CBSMT

Yn ôl y Ddeddf diffiniad perygl llifogydd lleol yw perygl llifogydd a ddaw o:

- Ddyfrffyrdd arferol - pob dyfrffordd nad yw'n Brif Afon ddynodedig sy'n gyfrifoldeb Awdurdodau Lleol
- Dŵr wyneb ffo - glawiad neu ddyodiad arall sydd ar y wyneb neu'r ddaear sydd heb fynd i ddyfrffordd, system ddraenio neu garthffos gyhoeddus.
- Dŵr daear – dŵr sydd wedi treiddio i'r ddaear a gall fod o byllau neu afonydd tanddaearol a allai ollwng uwch y ddaear ond yn is yn y dalgylch.
- Y rhyngwyneb rhwng prif afonydd a llifoedd dŵr wyneb

Nodweddion y Dalgylch

Mae'r tir yn CBSMT yn nodweddiadol o holl gymoedd De-ddwyrain Cymru. Mae'r dalgylchoedd yn cynnwys llethrau serth sydd ar y cyfan wedi'i gyfansoddi o glai anathraidd dros amryw strata creigiau gydag afonydd serth cyflym ar lawr y cwm. Mae'r cyfuniad o nodweddion hyn yn arwain at ddalgylchoedd "flashy" iawn, sy'n golygu bod dŵr ffo o stormydd yn creu briglifoedd uchel bron ar unwaith sy'n gostegu'n gyflym iawn ar y cyfan mewn mater o funudau yn hytrach nag oriau neu ddyddiau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddŵr wyneb ffo a dyfrffyrdd arferol.

Mae gan CNC ddyletswydd goruchwyllo ar Ddyfrffyrdd Prif Afonydd, e.e. Afon Taf, o dan ofynion Deddf Adnoddau Dŵr 1991. Er bod tuedd i brif afonydd fod yn fwy o faint gyda dalgylchoedd mwy o faint na dyfrffyrdd arferol, yn CBSMT maent yn dal i ymateb yn gyflym i lawiad gan gymryd oriau i gyrraedd briglif yn hytrach na dyddiau.

Mae llifogydd yn digwydd yn CBSMT yn sgil amryw achosion:

- Dŵr daear
- Dŵr wyneb ffo
- Draenio priffyrdd
- Dyfrffyrdd arferol
- Sianeli
- Carthffosydd cyfunol
- Llifogydd o afonydd

Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd

Cynhaliwyd proses yr Asesiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (ARhBLI) er mwyn pennu lefel y perygl o lifogydd ymhob ardal ALILIA. Edrychodd y broses yn benodol ar lifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a dyfrffyrdd arferol a'r rhyngwyneb â llifogydd o'r brif afon. Fodd bynnag mae llifogydd o'r brif afon yn parhau'n gyfrifoldeb CNC.

Er cysondeb dull, nododd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cymru (LIC) nifer o ddangosyddion perygl allweddol a'u trothwy er mwyn pennu perygl sylweddol ac i bennu presenoldeb Ardaloedd Perygl Llifogydd.

Roedd y fethodoleg wedi'i seilio ar ddefnyddio'r mapiau llifogydd a grëwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i nodi sgwariau 1km lle mae'r perygl uwchlaw trothwy dynodedig. Gelwir y sgwariau hyn yn ardaloedd uwchlaw Trothwy Perygl Llifogydd (Sgwariau Glas). Gosodwyd y dangosyddion perygl llifogydd allweddol a'u trothwyon ar gyfer sgwâr 1km fel a ganlyn:

- isafswm o 200 o bobl
- isafswm o 20 o fusnesau
- 2 neu fwy o wasanaethau critigol

Mae clwstwr o sgwariau glas yn arwydd y nodwyd ardal o berygl llifogydd crynodedig. Pan fo pedwar neu fwy o sgwariau glas yn gorgyffwrdd mewn sgwâr 3km x 3km ystyriwyd y sgwâr 3km x 3km cyfan yn ardal a allai ffurfio rhan o Ardal Perygl Llifogydd ddangosol.

Gosodwyd y dangosydd perygl llifogydd allweddol er mwyn pennu Ardaloedd Perygl Llifogydd dangosol fel – niferoedd o bobl sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd yn uwch na 5,000.

Ar sail y 22 o sgwariau glas a nodir yn CBSMT, a'r fethodoleg a ddiffinnir uchod, mae CBSMT wedi nodi Ardal Perygl Llifogydd o 58 km². 20 yn unig o'r sgwariau glas yn CBSMT sydd wedi'u lleoli yn yr Ardal Perygl Llifogydd ddangosol.

Cyfrifwyd y Dangosyddion Perygl Llifogydd Allweddol ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd CBSMT fel a ganlyn:

Effeithiau ar iechyd pobl	
Nifer y bobl (lluosydd 2.23)	7,923
Effeithiau eraill ar iechyd pobl	
Nifer y gwasanaethau critigol yr effeithiodd llifogydd arnynt	26
Effeithiau economaidd – nifer yr eiddo nad ydynt yn rhai preswyl yr effeithiodd llifogydd arnynt	818

Fel rhan o broses yr Aseiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd ystyriwyd hefyd digwyddiadau o lifogydd sylweddol yn y fwrdeistref yn y gorffennol.

I benderfynu ar arwyddocâd llifogydd unigol, pennodd DEFRA, LIC a CNC ddangosydd perygl llifogydd allweddol sy'n diffinio Ardal Perygl Llifogydd yng Nghymru yn un lle mae 5,000 o bobl mewn perygl neu lle gall llifogydd 0.3m neu fwy o ddyfnder effeithio ar o leiaf 200 o bobl neu 20 o fusnesau neu ar fwy nag 1 gwasanaeth critigol mewn 1km sgwâr unigol yn sgil glawiad lle mae 1 mewn 200 o siawns o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn.

Mae CBSMT fel ALILIA wedi gosod y dangosydd perygl llifogydd allweddol o ran pobl sydd mewn perygl o lifogydd ar drothwy o 200 (cyfwerth ag 85 eiddo) i benderfynu a oes arwyddocâd lleol i lifogydd.

Mae llifogydd ar y lefel hon o leiaf un lefel i lawr o'r trothwy cenedlaethol o ran effeithiau, ond mae'n dal i gynrychioli llifogydd ar lefel fawr. Gallai llifogydd o'r fath ddigwydd mewn ardal leol hynod ddwys megis 1km sgwâr neu effeithio ar y fwrdeistref gyfan gyda glawiad llai dwys.

Rhestrwyd dau achos o lifogydd ag iddynt arwyddocâd lleol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Nodwyd y rhain o adroddiadau yn dilyn llifogydd mawr. Dyma'r ddau ddigwyddiad:

- 4 Rhagfyr 1960 – Llifogydd a effeithiodd ar y fwrdeistref gyfan lle'r effeithiwyd ar gyfanswm o 90 eiddo preswyl yn ogystal ag eiddo masnachol arall.
- 26-27 Rhagfyr 1979 – Effeithiodd llifogydd ar gyfanswm o 189 eiddo preswyl ym Mhentrebach, Troedyrhiw a Rhydycar yn ogystal â sawl eiddo masnachol. Bu fawr dau o bobl o ganlyniad i ddymchwel ceuffos yn Rhydycar.

Casgliadau a luniwyd o'r Mapiau Perygl Llifogydd ar Lefel Bwrdeistref Gyfan

Cefndir

Cynhyrchu data a mapiau llifogydd

O dan Ran 3 Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 (FRR 2009) mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i baratoi mapiau perygl llifogydd ar gyfer pob ardal perygl llifogydd sy'n ymwneud â llifogydd o'r môr, prif afonydd a chronfeydd dŵr tra bo dyletswydd ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA), i baratoi mapiau perygl llifogydd sy'n ymwneud â llifogydd o ddŵr wyneb ar gyfer yr ardaloedd perygl llifogydd a nodir yn yr ARhBLI.

Mapiau Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'u diweddarau:

Yr wybodaeth yn y mapiau

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb sydd wedi'i ddiweddarau'n asesu sefyllfaoedd llifogydd o ganlyniad i lawiad sydd â'r tebygolrwydd canlynol o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn (dangosir y tebygolrwydd blynyddol o lifogydd mewn cromfachau):

- 1 mewn 30 (3.3%)
- 1 mewn 100 (1%)
- 1 mewn 1000 (0.1%)

Mae'n darparu'r data canlynol ar gyfer pob sefyllfa llifogydd:

- Maint – Maint y tir yr effeithiwyd arno
- Dyfnder – Dyfnder dŵr y llifogydd
- Cyflymder – Cyflymder dŵr y llifogydd
- Perygl – ffwythiant o ddyfnder a chyflymder
- Gradd perygl = $\text{dyfnder} \times (\text{cyflymder} + 0.5) + \text{ffactor gwaddod}$
- Cyfeiriad y llif (2m) – Cyfeiriad llif dŵr y llifogydd gan ddefnyddio grid 2m
- Cyfeiriad y llif (25m) – Cyfeiriad llif dŵr y llifogydd gan ddefnyddio grid 25m

Lluniwyd y mapiau perygl ar sail y Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'u diweddarau a'r Gronfa Ddata Derbynydd Genedlaethol (CDG). Mae tri math o fap sy'n dangos yr hyn sydd mewn perygl o'r llifogydd:

- Perygl i Bobl
- Perygl i Weithgarwch Economaidd
- Perygl i'r Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol

Ystyriwyd y tri map wrth baratoi'r CRhPLI hwn.

Data map llifogydd dŵr wyneb

At ddiben y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) hwn, defnyddiwyd y map Maint. Mae'r map maint yn gyfuniad o ddyfnder, perygl a chyflymder sef yr hyn yr ystyrir sy'n rhoi'r darlun mwyaf cywir o faint posibl llifogydd ar gyfer pob glawiad; 1 mewn 30 (Uchel), 1 mewn 100 (Canolig), ac 1 mewn 1000 (Isel).

Mae tair set o ganlyniadau enghreifftiol amrwd ar gyfer pob un tebygolrwydd: glawiad am 1, 3 a 6 awr. Cyfunwyd tair set o ddata amrwd ar gyfer pob glawiad i roi set ddata 'hyd storm critigol'. Cafodd y data hyd storm critigol ei brosesu wedyn i dynnu allan:

- Perygl isaf: unrhyw le â gradd perygl llai na 0.575 (cyfwerth â 150mm o ddŵr llonydd, 100mm o ddŵr tua 0.5m/s, 50mm o ddŵr 2m/s)
- Ardaloedd llifogydd llai na 100m².
- Ynysoedd o ardaloedd sych wedi'u hamgylchynu gan ddŵr sy'n llai na 50m².

Ailadroddwyd y broses hon ar gyfer y digwyddiadau 1 mewn 30, 1 mewn 100 ac 1 mewn 1000 y flwyddyn, a chyhoeddwyd y tri maint ar y cyd i ddangos ardaloedd perygl llifogydd uchel, canolig ac isel.

Cyfrifiadau

Cynhyrchwyd cyfrifiadau CBSMT yn unol â methodoleg ddiwygiedig yr UE gan ddefnyddio data o amryw ffynonellau.

Cyfrifiadau sy'n gynwysedig yn y CRhPLI hwn

Cynhyrchwyd pob cyfrifiad gan ddefnyddio meddalwedd GIS, cyfuniad o'r mapiau llifogydd dŵr wyneb a data chyfeirio. Mae pob categori'n cynnwys cyfrifiad ar gyfer 3 sefyllfa perygl llifogydd; P30 (Uchel), P100 (Canolig) a P1000 (Isel).

Perygl i bobl ac eiddo

- Nifer y bobl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd; dyfnder => 0mm a => 50% perimedr gwlyb. (nifer)
- Nifer yr eiddo preswyl y mae perygl i lifogydd effeithio ar y tu mewn; dyfnder => 200mm a => 50% perimedr gwlyb. (nifer)
- Nifer y gwasanaethau yn yr ardal y mae perygl i lifogydd effeithio arnynt; dyfnder => 0mm a =>50% perimedr gwlyb. (nifer)

Perygl i weithgarwch economaidd

- Eiddo nad yw'n breswyl mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd; dyfnder => 0mm a => 50% perimedr gwlyb. (nifer)
- Meysydd awyrennau (nifer)
- Ffyrdd Cynradd/Cefnffyrdd (hyd)
- Prif Reilffyrdd (hyd)
- Tir amaethyddol – Graddau 1, 2 a 3 (Arwynebedd)

Perygl i'r Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol

- Dyfroedd Trochi. (nifer)
- Gosodiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. (nifer)
- Ardaloedd Cawraeth Arbennig (ACA). (Arwynebedd)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). (Arwynebedd)
- Safleoedd Ramsar. (Arwynebedd)
- Safleoedd Treftadaeth y Byd. (Arwynebedd)

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). (Arwynebedd)
- Parciau a Gerddi. (Arwynebedd)
- Henebion Rhestredig. (Arwynebedd)
- Adeiladau Rhestredig. (Nifer)
- Ardaloedd Tynnu Dŵr Trwyddedig. (Nifer)
- Safleoedd o Ddiddordeb o ran Cadwraeth Natur. (Arwynebedd)

Cyfrifiadau Mesurau

Cynhaliodd CBSMT gyfres o gyfrifiadau er mwyn meintioli'r gostyngiad posibl i berygl llifogydd yn sgil gweithredu mesurau penodol.

Cynhaliwyd cyfrifiadau trwy nodi ardaloedd sy'n agored i berygl llifogydd ac wedyn cyfrifo nifer yr eiddo preswyl, masnachol a chritigol y mae glawriad P30, P100 a P1000 yn effeithio arnynt gan ddefnyddio dyfnder => sero a =>50% perimedr gwlyb fel meini prawf chwilio.

Bydd y cyfrifiadau hyn yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu gweithrediad y mesurau a nodir yn CRhPLI hwn.

Ardaloedd cymuned lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb yn CBSMT

At ddiben dadansoddi perygl llifogydd, rhannwyd CBSMT yn bymtheng Ardal Cymuned a restrir isod. Mae un ar ddeg o'r Ardaloedd Cymuned yn yr Ardal Perygl Llifogydd.

Mae Ardaloedd Cymuned wedi'u seilio ar ffiniau Wardiau ond er mwyn nodi'r perygl llifogydd yn fanylach, mae rhai wardiau wedi'u rhannu'n Ardaloedd Cymuned llai fel a ganlyn:

- Daw Ward Cyfarthfa yn ddwy Ardal Gymuned Gellideg a Heolgerrig.
- Daw Ward Ynysowen yn dwy Ardal Gymuned Aberfan ac Ynysowen.
- Daw Ward Plymouth yn dair Ardal Gymuned Abercannaid, Troedyrhiw a Phentrebach.
- Daw Ward Faenor yn ddwy Ardal Gymuned Faenor a Chefn Coed-y-cymmer.
- Yn ogystal, mae tair ward Gurnos, Park a Phenydarren wedi cyfuno i ffurfio un Ardal Gymuned Merthyr (Gogledd) ac mae'r Ward Tref wedi'i hailenwi'n Merthyr (De).

Sut rydym yn rheoli perygl llifogydd ar hyn o bryd yn CBSMT

Gweithdrefnau, Mesurau a Grymoedd

Rheolir perygl llifogydd yn CBSMT trwy:

- Weithdrefnau gweithredol a ddatblygwyd dros y blynyddoedd trwy arfer da.
- Mesurau oedd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.
- Grymoedd a roddwyd i bob ALILIA trwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Deddfau Draenio Tir 1991 a 1994.
- Gan fod CBSMT hefyd yr Awdurdod Priffyrdd mae Grymoedd hefyd dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

Gweithdrefnau Gweithredol

Rhestrir y prif weithdrefnau gweithredol i reoli perygl llifogydd yn CBSMT isod

- Glanhau gylïau fel mater o drefn trwy system rota.
- Glanhau gylïau llawn ar frys pan fo aelodau'r cyhoedd wedi dweud wrth Adran Priffyrdd CBSMT amdanynt.
- Arolygu a glanhau fel mater o drefn y gridiau i'r ceuffosydd a dyfrffyrdd critigol trwy system rota.
- Arolygu a glanhau gridiau critigol ar frys cyn ac yn ystod cyfnodau o law mawr.
- Glanhau gridiau ar frys pan fo aelodau'r cyhoedd wedi dweud wrth Adran Ddraenio CBSMT amdanynt.

Mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y SRhPLILI.

Rhestrir isod y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y SRhPLILI y mae CBSMT yn eu defnyddio ar hyn o bryd i reoli a lleihau perygl llifogydd ac mae'r mesurau wedi'u cynnwys yn fanwl yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Mae'r mesurau'n cynnwys y canlynol:

- Cynllunio Datblygiad Cynaliadwy a Strategol
- Asesiad Strategol o Berygl Llifogydd (ASBLI) / Asesiad Strategol o Effeithiau Llifogydd (ASELI)
- Adleoli
- Draenio Cynaliadwy
- Ymwybyddiaeth o Llifogydd
- Rhybuddion Llifogydd
- Darogan Llifogydd
- Cynlluniau Ymateb Brys
- Cynlluniau Llifogydd Cymunedol
- Rheoli Tir
- Gallu i wrthsefyll
- Gwytnwch
- Atgyweirio
- Gwelliannau Amgylcheddol
- Cynlluniau Rheoli Asedau System
- Rheoli Amddiffynfeydd/Strwythurau
- Adeiladu a Chynnal Sianeli
- Adeiladu a Chynnal Ceuffosydd
- Ymchwilio
- Lliniaru Llifogydd ar Lefel Eiddo Lleol – Gallu i wrthsefyll
- Lliniaru Llifogydd ar Lefel Eiddo Lleol – Gwytnwch

Sut rydym yn blaenoriaethu'n gwaith

Er mwyn bodloni gofynion y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol, gan gynnwys eu pedwar amcan cyffredinol, cafodd 17 o amcanion manwl eu cynnwys yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol CBSMT.

Cafodd 39 o fesurau eu cynnwys yn y Strategaeth er mwyn gweithredu'r amcanion manwl.

Cafodd cynllun gweithredu ei gynnwys hefyd i flaenoriaethu'r drefn y dylid ystyried gweithredu'r mesurau.

Pwy rydym yn gweithio gyda nhw i reoli perygl llifogydd yn CBSMT

Roedd yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru i lunio'r SRhPLILI yn cynnwys rhestr o Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd.

Cysylltwyd â phob un o'r sefydliadau hyn fel rhan o'r broses ymgynghori ar y CRhPLI hwn.

Yr Awdurdodau Rheoli Perygl

Cyfoeth Naturiol Cymru – gan gynnwys y cyrff blaenorol

Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru

Y rheini sydd ar y ffin â CBSMT

Yr awdurdodau hynny yn Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru

Cwmni Dŵr – Dŵr Cymru

Partneriaid Perygl Ychwanegol

Partneriaid Mewnol

Adran Gynllunio

Adran Priffyrdd

Cynllunio Argyfwng

Partneriaid Allanol

Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (RhPLIC)

Gwasanaethau Brys

Cymdeithasau Tai

Fforwm Llifogydd Cenedlaethol

Undeb Ffermwyr Cenedlaethol

Partneriaethau, fforymau a grwpiau cymunedol lleol

RSPB

Perchnogion Tir a Rheolwyr tir/ystadau

Prifysgolion

Fforwm Datblygwyr

Adeiladwyr Tai Cenedlaethol
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Network Rail
Cynghorau Plwyf a Thref
Fforwm Cydnerthedd Lleol
Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio (CAD)
Cymdeithas Tir a busnesau Cefn Gwlad
ACDC – Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
CADW

Sut y cydlynwyd y CRhPLI hwn

Cydlynwyd a datblygwyd y CRhPLI hwn trwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng y grwpiau amrywiol a restrir isod:

- Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru gyda phob ALILIA yn Ne Cymru, CNC, WLGA a DC/WW i gyd yn bresennol.
- Gweithgor Rheoli Perygl Llifogydd gyda phob ALILIA yn Ne-ddwyrain Cymru, LIC, CNC ac WLGA i gyd yn bresennol.
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda Chyngor Dinas Abertawe a Chyngorau Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i gyd yn bresennol.

Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd â CLILC.

Cafwyd cyfarfodydd hefyd â Dŵr Cymru

Cydweithredwyd yn fewnol hefyd trwy gyfarfodydd â'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd.

Cydlynu â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren

Cyffredinol

Yn ôl y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (CFfD), mae dyletswydd ar Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i baratoi Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer pob Rhanbarth Basn Afon. Mae Cymru wedi'i rhannu'n dri Rhanbarth Basn Afon fel y nodir isod.

- Afon Dyfrdwy yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n ymestyn dros y ffin i Loegr
- Afon Hafren sy'n gorchuddio canol-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru sydd hefyd yn ymestyn dros y ffin i Loegr
- Gorllewin Cymru sy'n cynnwys sector gorllewinol cyfan Cymru o Sir Fôn i arfordir y de.

Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi'i lleoli yn rhan ddeheuol Basn Afon Hafren, Dalgylch Cymoedd y De-ddwyrain.

Trosolwg o Ranbarthau Basn Afon Hafren

Mae Rhanbarth Basn Afon Hafren yn gartref i dros 5.3 miliwn o bobl ac mae'n gorchuddio arwynebedd o 21,590km², gyda thua hanner y rhanbarth yng Nghymru. Afon Hafren yw afon hiraf Prydain ac mae'n llifo i Aber Hafren. Yn ogystal ag Afon Hafren a'i phrif lednentydd, mae'r rhanbarth yn cynnwys afonydd De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Afon Gwy, Afon Wysg ac Afon Taf, a'r rheini yn siroedd Avon a Gwlad yr Haf sy'n draenio i Aber Hafren.

Mae gan y rhanbarth sawl canolfan drefol fawr, gan gynnwys Bryste, Caerdydd a Coventry. Fodd bynnag, mae cymeriad gwledig i lawer o'r rhanbarth basn afon, yn arbennig yn ffiniau Cymru. Rheolir tua 80% o'r tir ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Y sectorau economaidd allweddol yn y rhanbarth yw gwasanaethau busnes, cyfanwerthu a dosbarthu, gweinyddu cyhoeddus ac iechyd. Mae cynhyrchu offer trafniadaeth a metelau hefyd yn sectorau diwydiannol pwysig.

Crynodeb o gydlynu datblygiad a gweithrediad y CRhPLI yn y Cynllun Rheoli Basn Afon (CRhBA) a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon (CRhPLIBA) ar gyfer Afon Hafren.

Cydlynu â'r Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren

Cyhoeddwyd y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren, a baratowyd ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr oedd yn ofynnol gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ar wefan CNC ar 10 Hydref 2014.

Fel rhan o ddatblygu'r CRhBA cynhaliodd CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd broses ymgynghori. Dechreuodd y broses ymgynghori ar 10 Hydref 2014 a daeth i ben ar 10 Ebrill 2015.

Disgwylir wrth i'r ymgynghori barhau y bydd CBSMT yn nodi mesurau a chysylltiadau pellach i grynau'r cysylltiadau â'r CRhBA.

Cydlynu â'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren

Paratowyd y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr oedd yn ofynnol gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan CNC ar 10 Hydref 2014.

Fel rhan o ddatblygu'r CRhPLIBA cynhaliodd CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd broses ymgynghori. Dechreuodd y broses ymgynghori ar 10 Hydref 2014 a daeth i ben ar 31 Ionawr 2015. Ymatebodd CBSMT i'r ymgynghoriad trwy lenwi a dychwelyd holiadur a ddaeth fel rhan o'r ymgynghoriad.

Disgwylir wrth i'r ymgynghori barhau y bydd CBSMT yn nodi mesurau a chysylltiadau pellach i grynau'r cysylltiadau â'r CRhPLIBA.

Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd CBSMT

Crynodeb o Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

Ar gais Llywodraeth Cymru, mae CBSMT wedi datblygu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn y Fwrdeistref. Cymeradwywyd y ddogfen hon, a baratowyd yn 2012, gan LIC ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013.

Fel rhan o'r broses hon cytunwyd ar restr o amcanion a nodir adran berthnasol y Strategaeth isod.

Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd

- 1 **Cymdeithasol:**
Lleihau gofid (nifer y bobl sy'n agored i lifogydd)
Lleihau tarfu ar y gymuned (nifer yr eiddo preswyl a masnachol)
Lleihau perygl i fywyd (nifer y bobl sy'n agored i ddyfnder x cyflymder llif)
Lleihau tarfu ar isadeiledd critigol (neu gynnal gweithrediad ohono)
- 2 **Economaidd:**
Lleihau iawndaliadau economaidd (e.e. lawndaliadau Cyfartalog Blynnyddol (ICB)).
Lleihau cost rheoli (noder: deilliant rheoli perygl i'w ddefnyddio wrth arfarnu)
- 3 **Amgylcheddol:**
Lleihau difrod i safleoedd Natura 2000 / SoDdGA/ BAP (neu wella safleoedd)
Gwella naturioldeb (lleihau addasu sianeli/cyrff dŵr)
Amcanion y CFfD: gwella ansawdd y dŵr/statws ecolegol (neu beidio â gadael iddo ddirywio) – materion 'hydromorph' a llygredd gwasgaredig

Amcanion CBSMT o'r Strategaeth Leol

Wrth ystyried yr amcan lefel uchel ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ystyriwyd pedwar opsiwn, a nodir isod:

Opsiynau Strategaeth Lefel Uchel

- Gwneud Dim
- Cynnal Rheoli Perygl Llifogydd ar y Lefelau Presennol
- Cynnal

- Lleihau Perygl Llifogydd

Yn y ddogfen ganllaw ar Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a gynhyrchwyd gan LIC, cyngorwyd y dylid datblygu amcanion strategol lefel uchel i leihau effeithiau andwyol posibl llifogydd ar

- iechyd pobl
- yr amgylchedd
- treftadaeth ddiwylliannol
- gweithgarwch economaidd

Mae CBSMT wedi mabwysiadu'r dull hwn er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn ei Strategaeth Leol yn gyson â'r rheini sy'n ofynnol o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Er mwyn cydymffurfio â'r amcanion hyn a gofynion Strategaeth Genedlaethol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi pennu ei strategaeth lefel uchel fel a ganlyn:

“Ymdrechu i leihau Perygl Llifogydd ymhob ardal y dynodir bod iddi berygl sylweddol o lifogydd”.

Mae'r amcan lefel uchel hwn hefyd yn ffocws i'r CRhPLI. Fe'i defnyddiwyd i bennu'r mesurau y dylid eu cynnwys i'w gweithredu dros y cylch chwe blynedd gyntaf er mwyn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni'r amcan hwn.

Amcanion Manwl CBSMT

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gosod yr amcanion manwl canlynol fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Mae'r amcanion hyn yn Benodol, yn Fesuradwy, yn Gyflawnadwy, yn Rhesymol gyda Chyfyngiad Amser.

Bydd yr holl amcanion yn cael eu gweithredu gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol sydd ar gael.

Datblygwyd yr holl amcanion manwl isod ar gyfer y SRhPLILI ac ni wnaed unrhyw addasiadau nag ychwanegiadau i'r rheini yn y Strategy. Defnyddiwyd yr amcanion i bennu pa fesurau y dylid eu gweithredu yn y CRhPLI er mwyn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni amcan lefel uchel CBSMT.

Amcan Cyffredinol 1

Lleihau effeithiau ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;

- Lleihau gofid trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd.
- Lleihau tarfu ar y gymuned trwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol y mae perygl llifogydd yn effeithio arnynt.
- Lleihau perygl i fywyd trwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder sylweddol.
- Lleihau tarfu ar isadeiledd critigol neu lunio cynlluniau i alluogi cynnal gweithrediadau.
- Gwarchod a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig.
- Cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Merthyr Tudful.
- Lleihau'r Difrod i Asedau Hanesyddol hysbys.

Amcan Cyffredinol 2

Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad pobl mewn ymateb i lifogydd

- Darparu systemau i roi rhybudd cynnar am lifogydd posibl i unigolion a chymunedau.
- Darparu systemau effeithlon i reoli a chynnal asedau dwr wyneb.
- Lleihau difrod economaidd.
- Ymdrechu i leihau cost rheoli.

Amcan Cyffredinol 3

Darparu ymateb effeithiol a chynhaliol i lifogydd

- Gwella naturioldeb gan gynnwys creu/adnewyddu/gwarchod sianeli a chyrrff dŵr naturiol gyda'r lleiaf o waith addasu.
- Amddiffyn a gwella lle bo'n bosibl ansawdd y dŵr.
- Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n agored i berygl llifogydd.
- Sicrhau bod yr holl fesurau'n gynaliadwy.
- Sicrhau bod CBSMT yn gweithio mewn partneriaeth â'r holl Bartneriaid Perygl eraill ac yn gweithio ar y cyd ag Awdurdodau cyfagos.

Amcan Cyffredinol 4

Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau lle mae'r perygl fwyaf.

- Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi i weithredu cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn gyson ac yn bosibl eu cyfiawnhau a'u bod yn amodol ar ddadansoddiad o gost a budd.

Crynodeb o'r Broses Dethol a Blaenoriaethu Mesurau i Gyflawni Amcanion

Wrth ystyried y mesurau i'w defnyddio i gyflawni amcanion, datblygwyd y Cynllun Gweithredu a restrir isod i bennu blaenoriaeth pob mesur.

Yn ogystal, bydd blaenoriaeth uwch i'r mesurau sy'n bodloni amryw amcanion na'r rheini sy'n bodloni un yn unig.

Bydd mesurau hefyd yn cael mwy o flaenoriaeth os yw'r effeithiau amgylcheddol yn debygol o wella bioamrywiaeth gan eu bod yn darparu gwelliannau cymdeithasol megis mynediad i'r cyhoedd.

Wrth ystyried pob mesur mae CBSMT wedi canolbwyntio ar:

- Atal
- Amddiffyn
- Parodrwydd
- Adfer ac Adolygu – gan gynnwys Addasu'r Hinsawdd

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi'r saith thema lefel uchel canlynol y mae CBSMT wedi'u hystyried i weithredu'r Strategaeth:

- Cynllunio ac addasu datblygiad
- Darogan, rhybuddio ac ymateb i lifogydd
- Rheoli tir, diwylliant a'r amgylchedd
- Rheoli a chynnal asedau
- Astudiaethau, asesiadau a chynlluniau
- Ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad lefel uchel (i gynyddu gallu unigol a chymunedol i wrthsefyll)
- Monitro (materion perygl llifogydd lleol)

Mae CBSMT wedi nodi 39 o fesurau manwl i gyd a fydd yn sicrhau cyflawni'r amcanion manwl.

Nodwyd y mesurau o dan bedwar categori, sef:

- Atal llifogydd
- Parodrwydd ar gyfer llifogydd
- Amddiffyn rhag llifogydd
- Adfer ac Adolygu

Mae pob mesur wedi cael graddfa amser gweithredu fel a ganlyn:

- Tymor byr 0 – 20 mlynedd.
- Tymor canolig 20 – 50 mlynedd.
- Tymor hir 50 – 100 mlynedd.

CBSMT – CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH

- Hysbysu a sicrhau bod preswylwyr yn ymwybodol o lefel y perygl o'u blaenau.
- Darparu system rhybudd cynnar i roi amser i breswylwyr symud i ardal ddiogel.
- Annog y preswylwyr i lunio'u Cynllun Llifogydd eu hunain i leihau'r perygl i'w hunain a'r difrod i'w heiddo a'i gynnwys.
- Darparu systemau i atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i eiddo sydd mewn perygl.
- Ymdrechu i leihau perygl llifogydd trwy leihau faint o ddŵr y mae'r dalgylch i fyny'r afon yn ei gynhyrchu.
- Cyflwyno systemau lliniaru llifogydd megis ceuffosydd neu ffosydd draenio.
- Adeiladu amddiffynfeydd llifogydd newydd neu godi lefel amddiffynfeydd llifogydd presennol.

Sut y byddwn yn rheoli perygl llifogydd ar lefel leol

CBSMT – Ardaloedd Perygl Llifogydd

Trosolwg

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) yn Awdurdod Unedol yng nghymoedd De-ddwyrain Cymru. Mae ganddo boblogaeth o tua 61,500 ac arwynebedd o 11,189 hectar. Mae'r Fwrdeistref yn gymysgedd o gymunedau gwledig a threfol wedi'u hadeiladu ar y cyfan ar lethrau serth neu ym masn y cwm.

Mae dŵr wyneb o uchafoedd y dalgyrch yn draenio i'r Taf Fawr tua'r gorllewin ac i'r Taf Fechan tua'r dwyrain. Mae cydlifiad y ddwy afon yn digwydd yng Nghefn Coed-y-cymmer ac islaw'r pwynt hwnnw cyfeirir at yr afon fel Afon Taf.

Mae sector de-ddwyrain y dalgyrch yn draenio i Fargod Taf sy'n ymuno ag Afon Taf ger Mynwent y Crynwyr.

Gorwedd y Fwrdeistref yn uchafoedd Dalgyrch Afon Taf ac ym Masn Afon Hafren.

Ar raddfa cymunedau mae'r fwrdeistref yn draenio trwy ddyfrffyrdd a cheuffosydd arferol niferus. Mae'r dŵr wyneb o'r dyfrffyrdd yn mynd i'r systemau draenio trwy nifer fawr o fewnlifiadau, rhai â gridiau a rhai hebddynt.

Cofnodwyd y nodweddion hyn yn ein Geo Environ Database ar gyfer strwythurau draenio ac fe'u gwelir hefyd ar ein pecyn System Wybodaeth Ddaearyddol. Mae'n debygol y down o hyd i geuffosydd eraill wrth i ymchwilio barhau.

Lle'r ystyrir bod y system ddraenio, gan gynnwys y ceuffosydd sy'n cludo'r dŵr wyneb, yn sylweddol nodwyd bod y mewnlifiadau'n sylweddol hefyd. Caiff y mewnlifiadau hyn eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff y mewnlifiadau'u clirio o waddod a llystyfiant lle bo'n briodol er mwyn atal y mewnlifiadau rhag cau gan arwain at lifogydd. Rhestrwyd mewnlifiadau sylweddol mewn tablau ar gyfer pob ardal cymuned isod.

Mae rhai o'r mewnlifiadau sylweddol hefyd wedi'u dynodi'n gritigol. Dyma'r mewnlifiadau sydd fwyaf tebygol o gau a pheri llifogydd mewn storm fawr. Os oes glaw mawr wedi'i ddarogan caiff y mewnlifiadau hyn eu harchwilio fel mater o flaenoriaeth, eu harchwilio lle bo angen, ac mae archwiliadau'n parhau yn ystod ac yn syth ar ôl glawiad mawr. Mae 29 mewnlif i gyd wedi'i ddynodi'n gritigol.

O brofiad yn CBSMT, dros gyfnod o 25 mlynedd, y tarddiad mwyaf tebygol o lifogydd yw gridiau sydd wedi'u ar fewnlifau i geuffosydd, felly mae pwyslais sylweddol yn y CRhPLI hwn ar yr agwedd hon ar berygl llifogydd o ddŵr wyneb.

Mesurau ac amcanion i liniaru perygl llifogydd – Ar gyfer y Fwrdeistref gyfan

Datblygwyd yr holl fesurau isod i'w cynnwys yn y CRhPLI hwn, ar gyfer y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd (SRhPLI). Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth i egluro gweithrediad y mesur mewn lleoliadau arbennig.

MBC M01 Sefydlu Fforwm Llifogydd lle bo'n briodol a lle mae galw lleol. Edrych ar ffyrdd arloesol o godi ymwybyddiaeth a gallu cymunedol i wrthsefyll yn yr ardaloedd lle mae'r perygl mwyaf.

Ymgysylltu â'r gymuned i lunio cynllun llifogydd cymunedol. Ymgysylltu â pherchnogion tai i lunio cynlluniau llifogydd personol.

MBC M02 Ymchwilio i ddichonoldeb gwasanaeth rhybuddio am lifogydd newydd. Datblygu gwasanaeth rhybuddio am lifogydd newydd.

MBC M03 Gwaith archwilio a nodir yn y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

MBC M04 Deillio hydroleg y dalgylch.
Cynnal archwiliad ac arolygiad o'r system ddraenio bresennol.
Adeiladu model hydrologig ar gyfer mewnlifau a cheufffogydd presennol.
Edrych ar ddyluniad y system ddraenio bresennol.
Llunio cynllun lleddfu llifogydd lle bo angen.

MBC M05 Cynnal ymchwiliad i darddiadau casgliadau o ddŵr wyneb.
Ymchwilio i lwybrau draenio i ac o ardaloedd perygl llifogydd.
Ymchwilio i gynigion amgen i leihau perygl llifogydd.

Mesurau sydd ar waith ar hyn y bryd yn CBSMT i reoli Perygl Llifogydd.

Cafodd y mesurau hyn ar gyfer CBSMT cyfan eu cynnwys yn y SRhPLILI

MBC M06 Cynllunio Datblygiad Cynaliadwy a Strategol

MBC M07 Asesiad Strategol o Berygl Llifogydd (ASBLI)/Asesiad Strategol o Effeithiau Llifogydd (ASELI)

MBC M08 Adleoli

MBC M09 Draenio Cynaliadwy

MBC M10 Ymwybyddiaeth o Llifogydd

MBC M11 Rhybuddion am Llifogydd

MBC M12 Darogan Llifogydd

MBC M13 Cynlluniau Ymateb Brys

MBC M14	Cynllun Llifogydd Cymunedol
MBC M15	Rheoli Tir
MBC M16	Gallu i wrthsefyll
MBC M17	Gwytnwch
MBC M18	Atgyweirio
MBC M19	Gwelliannau Amgylcheddol
MBC M20	Rheoli Asedau System
MBC M21	Rheoli Amddiffynfeydd/Strwythurau
MBC M22	Adeiladu a Chynnal Sianeli
MBC M23	Adeiladu a Chynnal Ceuffosydd
MBC M24	Ymchwilio
MBC M25	Lliniaru Llifogydd ar Lefel Eiddo Lleol – Gallu i wrthsefyll
MBC M26	Lliniaru Llifogydd ar Lefel Eiddo Lleol – Gwytnwch

Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Roedd yr holl amcanion manwl a mesurau yn y CRhPLI hwn wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ac felly mae'r Asesiad Strategol Amgylcheddol (AAS), a baratowyd ar gyfer y Strategaeth, yn parhau i fod yn ddilys. Nid oedd barn bod angen adolygu'r AAS.

Wrth baratoi'r Strategaeth daeth y broses gwmpasu am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) llawn i'r casgliad nad oedd ARhC ac mae hyn yn parhau'n wir ar gyfer y CRhPLI.

Ni fydd gwaith ffisegol yn cael ei adeiladu ar y safle fel rhan o'r CRhPLI hwn ond gall y gwaith ymchwilio amlygu gwaith angenrheidiol. Pe digwydd hyn bydd yr AAS yn cael ei adolygu fesul safle.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Partneriaid Perygl Llifogydd CBSMT

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd CBSMT a barodd chwe wythnos o ddydd Llun 5 Ionawr 2015 a dydd Llun 16 Chwefror 2015.

Cysylltwyd â'r Partneriaid Perygl Llifogydd canlynol:

- Pob Awdurdod Rheoli Perygl (ARhP)
- Pob gweithiwr yn CBSMT
- Pob Aelod o'r Cyngor
- Ceisiwyd ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd trwy'r dulliau canlynol:
 - a. 200+ aelod Panel Viewpoint Citizens CBSMT
 - b. Cyfryngau cymdeithasu gan gynnwys Facebook a Twitter
 - c. Tynnwyd sylw ato ar Dudalen We CBSMT

Dull Ymgynghori

Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar dudalen we CBSMT cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori. Cyhoeddwyd holiadur hefyd, ac anogwyd y pedwar Partner Perygl Llifogydd i'w lenwi.

Llenwodd 19 o bobl yr holiadur a chafwyd sylwadau mewn e-bost gan 7 arall.

Rhodddwyd yr holl sylwadau mewn taenlen ond nid oes data personol ynddi. Wrth ochr pob sylw yn y daenlen mae ymateb gan Dîm Rheoli Perygl Llifogydd CBSMT a lle bo'n briodol, diwygiwyd y CRhPLI yn unol â'r sylwadau. Cyhoeddwyd y daenlen o'r holl sylwadau ac ymatebion ar dudalen we CBSMT.

Pan fydd y CRhPLI wedi'i adolygu a'i dderbyn i'w gyhoeddi, bydd yn cael ei lwytho ar dudalen we CBSMT ynghyd â'r Aseiad Rhagarweiniol o Berygl Llifogydd (ARhBLI), y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLILI) a Chrynodeb a'r Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

Yn ogystal, bydd copïau papur o'r CRhPLI ynghyd â'r ARhBLI, y SRhPLILI a'r AAS ar gael ymhob llyfrgell a chanolfan hamdden ac yng Nghanolfan Ddinesig CBSMT.

Monitro ac Adolygu

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu'r CRhPLI hwn cyn ei gyhoeddi.

Bydd yr adolygiad nesaf o'r CRhPLI yn gyflawn erbyn 22 Mehefin 2021 a bydd adolygiadau dilynol yn digwydd pob 6 mlynedd.

Yn dilyn yr adolygiad bydd CBSMT yn paratoi CRhPLI diwygiedig a fydd yn ystyried y canlynol:

- Effaith newid yn yr hinsawdd ar achosion o lifogydd.
- Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu ar y mesurau yn y CRhPLI hwn.
- Os na weithredwyd ar y mesurau bydd datganiad o'r rhesymau dros hyn.

Ym mis Rhagfyr pob blwyddyn yn dilyn cwblhau'r CRhPLI hwn bydd y sefyllfa o ran gweithredu ar bob un o'r mesurau a restrir yn cael ei monitro. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd lle bo'n bosibl i weithredu ar y mesurau'n unol â'r graddfeydd amser.

Er mwyn i'r CRhPLI hwn fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol bod arian ychwanegol sylweddol ar gael i CBSMT ar ben y trefniadau ariannu arferol gan Lywodraeth Cymru. Gallai methu â chael yr arian ychwanegol hwn arwain at beidio â gweithredu'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar y mesurau a nodir yn yr adroddiad hwn.